# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, K P Hughes,<br>Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws a R Meirion Jones. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr T Ll Hughes MBE ac A M Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2019 fel cofnod cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro**

Cyflwynwyd 4 ymgeisydd oddi ar y rhestr fer ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Penodiadau ar gyfer rôl y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro. Penderfynodd un ymgeisydd dynnu ei gais yn ôl yn dilyn y broses o lunio rhestr fer felly dim ond tri ymgeisydd fynychodd y cyfweliadau ffurfiol.

Rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad, ateb cwestiynau ar y cyflwyniad ac yna ateb cyfres o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Darparwyd adborth gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid am y broses asesu a oedd yn cynnwys profion seicometreg a chyfweliad proffesiynol a gyflawnwyd gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Yn dilyn y cyfweliad ffurfiol, **PENDERFYNODD y Pwyllgor Penodiadau benodi Mr Christian Branch i'r swydd uchod.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLILAMS**
**CADEIRYDD**